

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

Dyddiad:
Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2013

Amser:
09:00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Polisi: Tom Jackson
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8597
Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk

Agenda

- 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (9:00 – 9:05)**
- 2. Ystyried rhaglen astudiaethau gwerth am arian Swyddfa Archwilio Cymru (9:05 – 10:00)** (Tudalennau 1 – 19)
PAC(4) 08–13 – Papur 1 – Swyddfa Archwilio Cymru: Rhaglen astudiaethau gwerth am arian
- 3. Papurau i'w nodi** (Tudalennau 20 – 21)
- 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:**
Eitemau 5 i 8.
- 5. Ystyried rhaglen astudiaethau gwerth am arian Swyddfa Archwilio Cymru (10:00 – 10:10)**
- 6. Ystyried Cylch Gorchwyl yr ymchwiliad sy'n ymwneud â Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg (10:10 – 10:20)** (Tudalennau 22 – 23)
- 7. Ystyried rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer tymor y gwanwyn 2013 (10:20 – 10:40)** (Tudalennau 24 – 27)

8. Adolygu'r cymorth a ddarperir i bwyllgorau. (10:40 – 11:00)



Rhaglen astudiaethau gwerth am arian
Swyddfa Archwilio Cymru
Papur briffio ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Rhaglen astudiaethau gwerth am arian Swyddfa Archwilio Cymru

**Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ**

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Strategaeth ddrafft Swyddfa Archwilio Cymru: 2013-2016	5
Gwaith sy'n mynd rhagddo	7
Cymorth i bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol	9
Pynciau posibl ar gyfer astudiaethau gwerth am arian yn y dyfodol	10
Ychwanegu at ein Cyfnewidfa Arfer Da/ dysgu ar y cyd yn 2013-14	14
Atodiad 1 Gwaith sy'n mynd rhagddo - cwmpas ac amserlenni arfaethedig	15

Cyflwyniad

- 1 Prif ddiben y papur hwn yw rhoi'r canlynol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor):
 - y diweddaraf ar raglen astudiaethau gwerth am arian¹ Swyddfa Archwilio Cymru a gwaith archwilio arall sy'n mynd rhagddo a allai arwain at adroddiadau i'w hystyried gan y Pwyllgor;
 - cyfle i nodi pynciau posibl ar gyfer astudiaethau gwerth am arian yn y dyfodol.
- 2 Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gan y Pwyllgor ynglŷn â blaenoriaethu'r astudiaethau gwerth am arian posibl a nodir yn y papur hwn. Fel arfer, rwyf hefyd yn barod i ystyried materion penodol eraill sy'n achos pryder y gallai'r Pwyllgor fod yn awyddus i Swyddfa Archwilio Cymru eu harchwilio.
- 3 Byddaf yn paratoi fy nghynlluniau terfynol ar ddechrau mis Ebrill 2013 ochr yn ochr â'r broses o baratoi strategaeth derfynol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2013-2016 a'm rhaglen o waith archwilio ar berfformiad llywodraeth leol ar gyfer 2013-14². Byddaf hefyd yn ystyried safbwyntiau swyddogion Llywodraeth Cymru a safbwyntiau a chynlluniau cydweithwyr yn Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn ogystal â swyddogion yn swyddfeydd archwilio eraill y DU. Yn unol â'r ymrwymïadau a nodwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Swyddfa Archwilio Cymru, rwyf hefyd wedi gofyn am sylwadau gan sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau gwarchoddedig.

1 Mae'r astudiaethau hyn yn ystyried materion yn ymwneud â darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna Llywodraeth Cymru, y cyrff cyhoeddus a noddir ganddi a'i chyrrff cyhoeddus cysylltiedig o'u hadnoddau i gyflawni eu swyddogaethau.


2 Mae ymgynghoriad ar waith archwilio perfformiad llywodraeth leol wedi ceisio barn ar rinweddau cymharol gwaith archwilio yn y dyfodol ar y canlynol: cydweithio a phartneriaethau; gweithredu cynlluniau cydraddoldeb strategol; diwygio lles; trefniadau diogelu (o safbwynt adnoddau dynol); effaith toriadau ar wasanaethau a dinasyddion; cynllunio'r gweithlu; a'r rhyngwyneb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

Strategaeth ddrafft Swyddfa Archwilio Cymru: 2013-2016

- 4** Mae strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru 2009-2012 yn nodi nifer o ffactorau sydd, ochr yn ochr â'r cyd-destun polisi ehangach a'n rhwymedigaethau statudol, wedi helpu i lywio penderfyniadau ar ein rhaglen waith. Roedd y ffactorau hyn yn cynnwys:
- lefelau diddordeb a phryder y cyhoedd;
 - p'un a yw Swyddfa Archwilio Cymru mewn sefyllfa i hwyluso neu gyflawni canlyniad addas;
 - maint y materion a'r risgiau cysylltiedig;
 - p'un a ellir trosglwyddo'r gwersi a ddysgir;
 - a yw'r gwaith yn amserol;
 - p'un a yw'n well gweithio'n unigol neu gydag eraill.
- 5** Ym mis Tachwedd 2012, lansiais ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2013-2016³. Er bod y ffactorau a restrir uchod yn dal i fod yn ystyriaethau pwysig, nododd ein strategaeth ddrafft sut yr ydym yn bwriadu ymateb i'r ffactorau allweddol yn ein hamgylchedd gweithredol yr oedd eu hangen, yn ein barn ni, i lywio'r hyn y byddwn yn ei wneud dros y tair blynedd nesaf (**Ffigurau 1 a 2**).
- 6** Yn gyffredinol, roedd yr adborth a gawsom – yn sgil cynnal ymgynghoriad eang ei gwmpas – yn cadarnhau ein gwerthusiad o'r prif ddylanwadau amgylcheddol ar y gwaith o ddarparu archwiliadau cyhoeddus dros yr ychydig flynyddoedd nesaf ac yn cyd-fynd â'n hymateb arfaethedig. Yn dilyn trafodaethau pellach yn y sefydliad, gan gynnwys trafodaethau gyda'n Bwrdd Cysgodol, bwriadaf lansio'r ddogfen strategaeth derfynol ym mis Ebrill 2013. Caiff y broses o gyflawni'r strategaeth ei hategu gan gynllun busnes tair blynedd sy'n cwmpasu hyd a lled y gwaith y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ei wneud. Bydd y cynllun hwn yn nodi sut y bwriadwn roi'r strategaeth ar waith yn ymarferol.

³ http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/WAO_Strategy_Consultation_Cymraeg.pdf

Ffigur 1: Nod ac amcanion craidd a nodwyd yn strategaeth ddrafft 2013-2016 Swyddfa Archwilio Cymru




Ffigur 2: Yr ymateb arfaethedig i'n hamgylchedd gweithredol, fe y'i nodwyd yn strategaeth ddrafft Swyddfa Archwilio Cymru 2013-2016

Ffactorau amgylcheddol allweddol	Camau y bwriadwn eu cymryd mewn ymateb
Rydym mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol	Ymgymryd â'n gwaith gwerth am arian â phwyslais ar galedi
Mae polisi yng Nghymru a pholisi yn Lloegr yn parhau i ymwahanu drwy broses ddatganoli gynyddol	Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da
Mae diddordeb yn effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu yn cynyddu ac erbyn hyn mae cwmpas ehangach i ofynion adrodd.	Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd
Mae dyletswyddau a safonau 'trawsbynciol', newydd wedi'u cyflwyno yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac maent yn parhau i gael eu cyflwyno	Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a'r defnydd o'r iaith Gymraeg
Mae'r dirwedd adolygu allanol yn parhau i ddatblygu	Gweithio'n agosach gyda chyrrff adolygu allanol eraill a gwella'r ffordd rydym yn rhedeg ein busnes yn ystod cyfnod pontio
Rydym yn byw mewn cymdeithas fwyfwy rhwydweithiol	Codi ymwybyddiaeth o'n gwaith a chynyddu diddordeb ynddo, gan gynnwys drwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn fwy effeithiol

Gwaith sy'n mynd rhagddo

- 7** Mae **Ffigur 3** yn disgrifio'r amrywiaeth o waith y mae Swyddfa Archwilio Cymru wrthi'n ymgymryd ag ef ac yr ydym yn disgwyl cyflwyno adroddiad cyhoeddus arno. Mae'r corff hwn o waith yn ychwanegol at y gwaith archwilio ariannol a pherfformiad rheolaidd a gyhoeddir yn lleol ar gyfer cyrff unigol a archwilir. Mae **Atodiad 1** yn rhoi manylion pellach am y gwaith a ddisgrifiwyd yn **Ffigur 3**, gan gynnwys terfynau amser disgwyliedig ar gyfer cwblhau prosiectau unigol. Disgwyliaf ragor o wybodaeth i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2013 ynghyd â'm hamcangyfrif o incwm a gwariant ar gyfer 2014-15.
- 8** Am y tro rwyf wedi penderfynu gohirio fy adolygiad arfaethedig o drefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithio gyda'r sector gwirfoddol. Roeddwn wedi rhoi'r gwaith hwn o'r neilltu dros dro tra'n cwblhau ein hadolygiad o *Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan*.
- 9** O ystyried y craffu manwl a fu ar drefniadau rheoli grantiau Llywodraeth Cymru gan y Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf, rwy'n pryderu bod perygl y bydd unrhyw waith ar drefniadau ar gyfer gweithio gyda'r sector gwirfoddol yn ailadrodd negeseuon sydd eisoes wedi deillio o'r gwaith hwnnw. Yn y cyfamser, rhoddodd fy adroddiad diweddar ar Argyfyngau Sifil yng Nghymru gyfle i'r Pwyllgor ystyried sut y mae cyrff cyhoeddus yn ymgysylltu â'r sector gwirfoddol yn y maes penodol hwnnw o ddarparu gwasanaethau ac mae'r un peth yn debygol o fod yn wir am rai adroddiadau eraill yn y dyfodol.
- 10** Rwyf hefyd yn ymwybodol o gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiweddarau Cynllun y Sector Gwirfoddol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yng Nghymru ac aibennu cyfeiriad polisi o ran cymorth i ymgysylltu â'r trydydd sector yn ystod 2013. Bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru yn dilyn hyn y datblygiadau hyn, gyda'r bwriad o ailystyried rhinweddau gwaith pellach yn y maes hwn yn 2014-15.

Ffigur 3: Gwaith sy'n mynd rhagddo



Nodyn

1 Nid y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw'r brif gynulleidfa fwrriadedig ar gyfer fy astudiaethau llywodraeth leol ac adroddiadau er budd y cyhoedd fy archwilydd penodedig ar gyfer llywodraeth leol. Serch hynny, mae'n debygol y bydd gan aelodau'r Pwyllgor ddiddordeb yn yr adroddiadau hyn ac, yn dibynnu ar eu cwrmpas, gallant o bosibl lywio rhaglen waith y Pwyllgor ei hun.

Cymorth i bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol

- 11** Bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru a minnau yn parhau i roi cymorth i'r Pwyllgor yn ei rôl hollbwysig i ddwyn Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill i gyfrif, ar sail ein hadroddiadau archwilio.
- 12** Un o'r opsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor wrth iddo ystyried fy adroddiadau yw cyfeirio'r mater at un o bwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol i graffu arno o bosibl. I'r perwyl hwn, roedd yn dda gennyf dderbyn cais yn ddiweddar gan Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd i staff Swyddfa Archwilio Cymru gynorthwyo ymchwiliad y pwyllgor hwnnw ar reoli gwastraff. Dylai'r ymchwiliad hwnnw roi cyfle i wneud gwaith dilynol ar faterion a ddeilliodd o'm hadroddiad ym mis Chwefror 2012 *Cyfranogiad y Cyhoedd o ran Ailgylchu Gwastraff*⁴. Bydd ein cyfraniad at waith y pwyllgor yn defnyddio ein profiad archwilio ehangach o faterion rheoli gwastraff.
- 13** Dros y misoedd diwethaf⁵, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi rhoi ymatebion ffurfiol a/neu adborth anffurfiol i gefnogi gwaith pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol gan gynnwys:
- ymchwiliadau'r Pwyllgor Cyllid ar Gronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru ac ar Reoli Asedau;
 - ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Addasiadau i Gartrefi;
 - gwaith craffu'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru).

⁴ Penderfynodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus beidio â chynnal ymchwiliad i'r materion a godwyd gan yr adroddiad hwn er iddo gael tystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i bryderon penodol a nodwyd gan aelodau o'r Pwyllgor. Ystyriodd y Pwyllgor dystiolaeth benodol hefyd mewn perthynas ag ariannu grantiau rheoli gwastraff yn ei adroddiad interim dilynol ar reoli grantiau: *Rheoli Grantiau yng Nghymru – Adroddiad Interim*, Awst 2012.

⁵ Wrth edrych ymhellach yn ôl, mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi darparu tystiolaeth i gefnogi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ym mis Mai 2012 – *Dylanwadu ar y broses o Foderneiddio Polisi Caffael yr UE*.

Pynciau posibl ar gyfer astudiaethau gwerth am arian yn y dyfodol

- 14** Mae **Ffigur 4** yn rhestru amrywiaeth eang o bynciau yr ydym wedi bod yn eu hystyried fel rhan o waith i nodi astudiaethau gwerth am arian posibl yn y dyfodol. Mae'r pynciau a all fod yn bosibiliadau cadarnach, yn ein barn ni, ar gyfer dechrau gwaith arnynt yn 2013-14 wedi'u cynnwys ar ben pob isadran neu tua'r brig. Rydym hefyd wedi nodi sut y bydd pob pwnc yn gwneud cyfraniad penodol, yn ein barn ni, tuag at y camau gweithredu a fydd yn ategu'r gwaith o gyflawni strategaeth 2013-2016 Swyddfa Archwilio Cymru (**Ffigur 2**)⁶.
- 15** Wrth benderfynu pa rai o'r pynciau hyn a faint y dylid gweithredu arnynt, a'r adeg orau i ddechrau gwaith arnynt, ystyriaf natur a baich gwaith yr hyn sydd eisoes yn mynd rhagddo (**Ffigur 3**). Mae hyn oll gyda'r nod o gynig llif rheolaidd o ddeunydd i'r Pwyllgor sy'n rhychwantu hyd a lled gwaith Swyddfa Archwilio Cymru.
- 16** Fodd bynnag, rwyf eisoes wedi penderfynu gwneud rhagor o waith ar gyllid iechyd. Rwyf hefyd yn ystyried darn o waith i archwilio trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ymateb i argymhellion archwilio (fy argymhellion i ac argymhellion y Pwyllgor). Yn ogystal â phrofi agweddau ar lywodraethu corfforaethol Llywodraeth Cymru, bydd y gwaith hwnnw yn rhoi cyfleoedd i wneud y canlynol:
- nodi unrhyw angen am waith dilynol manylach mewn meysydd penodol;
 - asesu effaith ein gwaith blaenorol, fel rhan o ddull mwy systematig o fesur effaith ein gwaith⁷.

⁶ Nid ydym wedi cynnwys yn Ffigur 4 gyfeiriad at y camau gweithredu a nodwyd yn ein strategaeth ddrafft sy'n canolbwyntio ar brosesau busnes craidd: gweithio'n agosach gyda chyrrff adolygu allanol eraill; gwella'r ffordd yr ydym yn rhedeg ein busnes drwy gyfnod o newid; a chodi ymwybyddiaeth o'n gwaith a chynyddu diddordeb ynddo, gan gynnwys drwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn fwy effeithiol.

⁷ Yn ei adroddiad ym mis Tachwedd 2012 ar fy amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2013-14, argymhellodd y Pwyllgor y dylwn baratoi adroddiadau effaith ar y buddiannau y gellir eu mesur a'r rhai na ellir eu mesur a wireddwyd o'n hymchwiliadau, gan gynnwys y rhai a gyflawnwyd o ganlyniad i'r Gyfnewidfa Arfer Da.

Ffigur 4: Pynciau a ystyrir ar gyfer gwaith gwerth am arian yn y dyfodol

	A	B	C	CH
A	Ymgymryd â gwaith gwerth am arian â phwyslais ar galedi			
B	Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnwid arfer da			
C	Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd			
CH	Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a'r defnydd o'r iaith Gymraeg			
Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol				
Cyllid iechyd	•	•		
Amseroedd aros ac ansawdd data'r GIG	•	•	•	
Rhaglen gwybodeg GIG Cymru		•	•	
Trefniadau comisiynu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru	•		•	
Cydwasanaethau'r GIG	•	•	•	
Gwerth am arian a gynigir gan gontractau gofal sylfaenol	•	•		
Dyfodol cynaliadwy				
Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru			•	•
Ymateb i newid yn yr hinsawdd – llifogydd mewndirol		•		•
Mynd i'r afael â thlodi tanwydd/ hyrwyddo effeithlonrwydd ynni cartref	•	•		•
Llywodraeth leol, cymunedau a thrafnidiaeth				
Cynnal a chadw priffyrdd	•	•		
Ymyriadau llwyddiannus mewn llywodraeth leol		•	•	
Gweithio gyda'r sector gwirfoddol	•	•		•
Gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru			•	•

A	B	C	CH
A	B	C	CH
Ymgymryd â gwaith gwerth am arian â phwyslais ar galedi	Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da	Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd	Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a'r defnydd o'r iaith Gymraeg
Busnes, menter technoleg a gwyddoniaeth			
Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus	•	•	•
Ardaloedd menter		•	•
Cyllid Cymru	•		•
Buddsoddiad cyhoeddus mewn hyrwyddo twristiaeth		•	•
Addysg a sgiliau			
Gwella safonau addysgu a chyrhaeddiad mewn ysgolion (y grant effeithiolrwydd ysgol a'r grant amddifadedd disgyblion)		•	•
Twf Swyddi Cymru a chynlluniau cymorth cyflogaeth eraill	•	•	•
Lleoedd gwag mewn ysgolion	•	•	•
Adolygiadau ar draws y sector cyhoeddus			
Rheoli effaith diwygiadau lles yng Nghymru	•	•	•
Sicrhau newidiadau yn ymddygiad y cyhoedd i gefnogi'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus		•	•
Arfarniad opsiynau o fuddsoddi i arbed	•	•	•
Rheoli/rhesymoli adeiladau yn y sector cyhoeddus	•	•	•
Cydymffurfiaeth â dyletswyddau deddfwriaethol allweddol/parodrwydd ar eu cyfer: <ul style="list-style-type: none"> • Cydraddoldeb • Yr iaith Gymraeg • Newid yn yr Hinsawdd • Datblygu cynaliadwy 		•	•

- A Ymgymryd â gwaith gwerth am arian â phwyslais ar galedi
- B Gwella ein gwaith ar feincodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da
- C Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd
- CH Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a'r defnydd o'r iaith Gymraeg

A B C CH

Gweinyddiaeth llywodraeth ganolog

Trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ymateb i argymhellion archwilio

Llywodraethu cwmnïau/cyd-fentrau o dan berchenogaeth gyhoeddus

Swyddogaethau cefn swyddfa llywodraeth ganolog

Rôl y comisiynwyr

			•	
	•		•	
	•	•		
			•	•

17 Wrth ystyried fy amcangyfrif o incwm a gwariant ar gyfer 2013-14, cymeradwyodd y Pwyllgor swm ychwanegol o £250,000 er mwyn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i ymateb yn ddi-oed i faterion sy'n achosi pryder ac sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd a all ddod i'r golwg yn ystod y flwyddyn tra'n lliniaru'r effaith ar y broses o gyflawni gwaith arall. Mae enghreifftiau o'r fath yn cynnwys ein gwaith cyfredol ar Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, arian cyhoeddus i Fferm Bysgod Penmon a Chanolfan Ddata Blaenafon⁸, ond mae'r rhain bellach yn rhan o'n rhaglen arfaethedig a bydd yr adnoddau y bydd angen eu neilltuo ar eu cyfer yn 2013-14 yn dylanwadu ar fy mhenderfyniadau ar faint o waith newydd a wneir. Felly, caiff yr arian wrth gefn ychwanegol ei ddefnyddio i gefnogi fy ymateb i faterion newydd sy'n achos pryder a all ddod i'r golwg yn 2013-14.

18 Yn yr un modd, gall cyfleoedd godi yn ystod y flwyddyn i ddatblygu adroddiadau eraill nas cynlluniwyd sy'n defnyddio gwaith archwilio lleol a/neu sy'n ymateb i bynciau llosg y dydd. Er enghraifft, yn erbyn cefndir yr ymchwiliad diweddar i Ymddiriedolaeth Sylfaenol GIG Swydd Canol Stafford rwyf wrthi'n ystyried y ffordd orau o ddwyn ynghyd dystiolaeth ar drefniadau llywodraethu yn y GIG yn seiliedig ar ein 'hasesiadau strwythuredig' o gyrff y GIG yn 2012⁹. Rwyf hefyd yn debygol o ddwyn ynghyd mewn un adroddiad, ganfyddiadau fy asesiadau o'r ffordd y mae 'awdurdodau gwella'¹⁰ yn cynllunio ar gyfer gwelliant, ei gyflawni ac yn cyflwyno adroddiadau arno. Mae'r gwaith asesu gwelliant hwnnw yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

⁸ Caiff rhan o gostau'r gwaith ar Ganolfan Ddata Blaenafon ei thalu drwy ffioedd archwilio lleol.

⁹ Mae fy rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol o fewn y GIG yn 2013 yn cynnwys adolygiadau o godio clinigol a nyrsio cymunedol.

¹⁰ Awdurdodau gwella sef cynghorau lleol, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol.

Ychwanegu at ein Cyfnewidfa Arfer Da/dysgu ar y cyd yn 2013-14

- 19** Ochr yn ochr â gwefan ein Cyfnewidfa Arfer Da, rydym yn hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth drwy seminarau dysgu ar y cyd, sy'n dwyn ynghyd unigolion profiadol o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i rannu eu gwybodaeth a'u profiad. Gall yr allbynnau hyn ddeilio'n uniongyrchol o waith archwilio arall neu, fel yn achos seminar arfaethedig 'Gweithio ar draws y Cenedlaethau', gellir eu datblygu mewn ffordd fwy annibynnol. Wrth ystyried fy amcangyfrif o incwm a gwariant ar gyfer 2013-14, cymeradwyodd y Pwyllgor fy nghais am swm ychwanegol o £250,000 i ddatblygu'r maes hwn o waith Swyddfa Archwilio Cymru.
- 20** Y meysydd â blaenoriaeth i'w datblygu, wedi'u hategu gan yr adnoddau ychwanegol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor fydd:
- cynyddu nifer y digwyddiadau dysgu ar y cyd i 12 y flwyddyn o leiaf, gan adeiladu ar lwyddiant y fformat hwn hyd yma;
 - gwella presenoldeb Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn helpu i ledaenu gwybodaeth am arfer da;
 - datblygu prosiect arfer da annibynnol ar 'Sicrhau bod Cyllidebau yn Gweithio'
 - diweddarau rhannau o'r Gyfnewidfa Arfer Da presennol ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol (yn benodol ein cynnwys ar 'Rheoli Absenoldeb Salwch' a 'Ffyrdd Callach o Weithio').

Atodiad 1

Gwaith sy'n mynd rhagddo - cwmpas ac amserlenni arfaethedig

Cyhoeddiadau arfaethedig Gorffennaf 2013

Hysbysu gofal iechyd – papur briffio

Canolbwyntiodd yr astudiaeth hon i ddechrau ar drefniadau Rhaglen Hysbysu Gofal Iechyd a'r trefniadau llywodraethu cysylltiedig. Mae'r gwaith hwnnw wedi dod i ben a chaiff y canfyddiadau eu crynhoi ar ffurf papur briffio byr. Yn y cyfamser, rydym wedi bod yn ystyried gwneud gwaith ychwanegol i archwilio'n fwy penodol y ffordd y mae rhaglen gwybodeg GIG Cymru yn cael ei gweithredu a'r trefniadau ar gyfer goruchwyllo'r rhaglen yn sgil creu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Dave Thomas

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Mandy Townsend

Rhoi Arian Cyhoeddus i Fferm Bysgod Penmon

Dechreuwyd ystyried yr arian cyhoeddus a roddwyd i Fferm Bysgod Penmon - yn benodol swm ychydig o dan £5 miliwn o arian Llywodraeth Cymru gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a'r Adran Materion Gwledig - yng nghanol 2012 yn dilyn gohebiaeth gan Aelodau Cynulliad. Ym mis Tachwedd 2012, penderfynais y dylem gyhoeddi adroddiad ar y mater.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Alastair McQuaid

Cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd 2007-2013

Mae Cymru yn gymwys i gael tua €2.22 biliwn (€317 miliwn y flwyddyn) gan yr Undeb Ewropeaidd rhwng 2007 a 2013 ar gyfer rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd, yn bennaf i ariannu gweithgareddau i wella economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae'r rhaglenni'n gweithredu o fewn fframwaith tynn o dargedau gwario a rheoliadau ar wariant, rheoli a rheolaeth ariannol. Bydd yr adroddiad yn ystyried cynnydd o ran cyflawni'r rhaglen ac yn asesu a ydynt yn mynd i gyflawni eu buddiannau disgwylidiedig. Bydd hefyd yn ystyried y trefniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith i weinyddu'r rhaglenni a gwerthuso eu heffaith,

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Ann-Marie Harkin

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Ben Robertson

Gofal iechyd parhaus

Er mwyn helpu i sicrhau mynediad mwy priodol, teg a chyson i Ofal Iechyd Parhaus y GIG, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fframwaith yn 2010, a nododd bolisi diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer bod yn gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus a chyfrifoldebau byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Bydd ein hadroddiad yn ystyried a yw'r fframwaith yn cael ei gymhwyso'n effeithiol er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag achosion unigol mewn ffordd deg a chyson. Bydd ein hadroddiad yn llywio adolygiad arfaethedig o'r fframwaith gan Lywodraeth Cymru.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Steve Ashcroft

Cyhoeddiadau arfaethedig Gorffennaf 2013 (parhad)

Gofal heb ei drefnu - gwaith dilynol

Mae gwaith archwilio lleol wedi ystyried y cynnydd a wnaed gan fyrdau iechyd o ran ateb yr heriau a nodwyd mewn adroddiadau blaenorol gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ofal heb ei drefnu a gyhoeddwyd yn 2009.

Gwnaed y gwaith archwilio lleol hwnnw ar y cyd ag adolygiad o wasanaethau rheoli cyflyrau cronig, o ystyried y cysylltiadau rhwng y ddau bwnc o ran rheoli'r galw a datblygu gwasanaethau er mwyn osgoi gorddibyniaeth ar y sector aciwt. Fodd bynnag, bwriadwn baratoi adroddiadau ar wahân ar y ddau bwnc.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Dave Thomas

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Tracey Davies

Rheoli cyflyrau cronig – gwaith dilynol

Mae gwaith archwilio lleol wedi ystyried y cynnydd a wnaed o ran datblygu gwasanaethau rheoli cyflyrau cronig ers i Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno adroddiad ar y pwnc hwn yn 2008. Bydd ein hadroddiad yn ystyried a yw gwasanaethau yn cael eu darparu yn unol â'r disgwyliadau a nodwyd yn Fframwaith Rheoli Cyflyrau Cronig Llywodraeth Cymru a Gosod y Cyfeiriad.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Dave Thomas

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Tracey Davies

Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng Awst 2013 a Rhagfyr 2013

Gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod – gwaith dilynol

Ym mis Tachwedd 2009, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru, ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ganfyddiadau adolygiad ar y cyd *Gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anghenion emosïynol ac iechyd meddwl*.

Bydd y gwaith dilynol hwn, a wneir ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yn ystyried a yw Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd lleol wedi mynd i'r afael yn ddigonol â'r materion gwreiddiol y nodwyd eu bod yn achosi risg i blant a phobl ifanc. Mae'r materion diogelwch a ystyriwyd yn cynnwys: lleoli pobl ifanc yn amhriodol ar wardiau iechyd meddwl i oedolion; rhannu a diogelu gwybodaeth; ac arferion rhyddhau cleifion os nad ydynt yn cadw apwyntiadau.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimplebee

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Steve Ashcroft

Canolfan Ddata Blaenafon

Rydym wedi derbyn nifer o eitemau o ohebiaeth ynglŷn â sefydlu a rhedeg y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (SRS: a elwir hefyd yn Ganolfan Adnoddau a Rennir neu Ganolfan Ddata Blaenafon). Menter gydweithredol rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy a Heddlu Gwent yw'r SRS er mwyn darparu gwasanaethau TG a rennir i'r tri chorff. O ganlyniad, rydym yn bwriadu ystyried materion sy'n ymwneud â sefydlu'r SRS a'i threfniadau rheoli a llywodraethu.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Richard Harries

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Nick Selwyn

Astudiaeth llywodraeth leol - ymateb i gyfyngiadau ariannol

Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i effaith cyllidebau is, a sut maent yn nodi ac yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a'r effaith bosibl ar wasanaethau a chanlyniadau. Nid yw'r gwaith ategol wedi cynnwys archwiliad cynhwysfawr o ymateb pob awdurdod lleol i'r sefyllfa ariannol, ond bydd yn rhoi trosolwg o'r ymagweddau hyn.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Alan Morris

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Louise Fleet

Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng Awst 2013 a Rhagfyr 2013 (parhad)

Trefniadau llywodraeth leol ar gyfer adolygu trefniadau llywodraethu a pharatoi datganiadau llywodraethu blynyddol

Bydd yr astudiaeth hon yn gwerthuso effeithiolrwydd adolygiadau awdurdodau lleol o lywodraethu gyda'r bwriad o nodi sut y gellir eu gwella er mwyn rhoi sicrwydd eu bod yn ddulliau dibynadwy o hunanwerthuso.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Jane Holownia

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Huw Rees

Gwasanaethau orthopedig

Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried i ba raddau y mae'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, ac yn ystyried sut y caiff arian ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer gwasanaethau orthopedig yn cael eu defnyddio i sicrhau gwelliannau cynaliadwy i wasanaethau. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar lwybrau cleifion penodol, a bydd yn ystyried i ba raddau y caiff y galw am wasanaethau orthopedig ei reoli drwy ddulliau atal a thriniaethau amgen yn hytrach na llawdriniaeth.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Dave Thomas

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Anne Beegan

Strategaeth Lleoliadau Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Lleoliadau yn 2002, gyda'r nod o ddatganoli gwasanaethau o Gaerdydd. Ymhlith manteision bwriadedig y rhaglen roedd aiddosbarthu cyfoeth o Gaerdydd i'r Cymoedd, ac i Ganolbarth a Gogledd Cymru; llwyddo i ymgysylltu'n agosach ag anghenion cymunedau lleol; darparu cyflogaeth mewn amgylchedd gwaith modern, cynaliadwy a dwyieithog; a manteisio ar gyfleoedd i symleiddio ystâd Llywodraeth Cymru a gwneud gwell defnydd ohoni.

Bydd ein hadroddiad yn ystyried a yw'r Strategaeth Lleoliadau wedi cyflawni ei hamcanion mewn ffordd sy'n gynaliadwy ac yn rhoi gwerth am arian.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Andy Phillips

Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon mewn ysgolion

Bydd yr astudiaeth hon yn ymdrin â'r cwestiwn a yw disgyblion, ysgolion a phwrs y wlad yn cael gwasanaeth da o drefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon. Mae'r astudiaeth wedi cael ei datblygu ac yn cael ei chyflawni ar y cyd ag Estyn. Y bwriad yw y bydd Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru yn paratoi adroddiadau ar wahân ond sy'n ategu ei gilydd sy'n canolbwyntio ar wahanol faterion sy'n ymwneud â threfniadau cyflenwi.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Stephen Martin

Rheoli a chynllunio ariannol ym maes addysg uwch

Bydd y gwaith hwn yn ystyried a yw trefniadau cynllunio a rheoli ariannol yn y sector addysg uwch yn ddigon cadarn i ateb yr heriau ariannol presennol a'r heriau yn y dyfodol. Bydd yn archwilio'r canlynol: sut y mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli'r ffordd y mae'n cyflawni ei pholisi ynglŷn â chyllid myfyrwyr addysg uwch; agweddau ar weithgareddau rheoleiddio, ariannu a chynghori CCAUC a'r ffordd y mae'r rhain yn hyrwyddo cyflwr ariannol sefydliadau addysg uwch ac yn cefnogi'r broses o gyflawni polisi Llywodraeth Cymru; a chyflwr ariannol y sefydliadau addysg uwch eu hunain a chadernid eu trefniadau cynllunio a rheoli ariannol.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Matthew Mortlock

Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng Awst 2013 a Rhagfyr 2013 (parhad)

Trefniadau craffu llywodraeth leol

Mae'r gwaith hwn yn wahanol i ddull archwilio traddodiadol yn yr ystyr ei fod yn cynnwys gweithgarwch a rennir mewn amser real a chydweithio â chynghorau lleol, hunanwerthuso a dysgu gan gymheiriaid er mwyn nodi i ba raddau y mae trefniadau herio a chraffu yn gweithredu'n effeithiol mewn llywodraeth leol ac er mwyn cefnogi gwelliant. Bydd y gwaith yn arwain at sawl allbwn, gan gynnwys adroddiad cryno cenedlaethol.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Alan Morris

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Non Jenkins

Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng Ionawr 2014 a Gorffennaf 2014

Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Bydd yr astudiaeth hon sy'n cyfuno astudiaeth gwerth am arian ac astudiaeth llywodraeth leol yn ystyried a yw'r sector cyhoeddus yng Nghymru mewn sefyllfa dda i'w gwneud yn bosibl i sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Bydd yr astudiaeth gwerth am arian yn ystyried yn bennaf a yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i wneud y cyfraniad gorau posibl i sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Bydd yr astudiaeth llywodraeth leol yn ystyried a oes gwersi i'w dysgu gan lywodraeth leol o ymdrechion i sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Alan Morris

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Stephen Martin/Louise Fleet

Rhagnodi gan feddygon teulu

Mae gwaith archwilio lleol yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ystyried trefniadau byrddau iechyd ar gyfer hyrwyddo rhagnodi cost-effeithiol a diogel mewn gofal sylfaenol, y caiff ei ganfyddiadau ei grynhoi mewn adroddiad cenedlaethol.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Dave Thomas

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Malcolm Latham

Rheoli meddyginiaethau

Yn ogystal â'n gwaith ar ragnodi gan feddygon teulu, bydd adolygiad cenedlaethol o reoli meddyginiaethau yn ystyried cost-effeithiolrwydd rhagnodi mewn gofal eilaidd a'r ffordd y rheolir y rhyngwyneb â gofal sylfaenol. Bydd y gwaith hwn a gwaith ar ragnodi gan feddygon teulu yn ystyried y cyfle i wneud arbedion cost heb amharu ar ofal cleifion.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Steve Ashcroft

Grantiau i ffermwyr/Glastir

Nid ydym eto wedi cadarnhau cwmpas terfynol yr astudiaeth hon. Fodd bynnag, rydym yn debygol o ystyried sut mae cynllun Glastir yn ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o gynllun Tir Gofal a'r dystiolaeth o gynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill. Yn benodol, byddem yn ystyried sut mae Llywodraeth Cymru wedi creu'r cynllun i gyflawni amcanion newydd ar gyfer lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, rheoli dŵr a bioamrywiaeth a threfniadau ar gyfer gweinyddu'r cynllun a gwerthuso ei effeithiau hirdymor.

Cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar gynllun Tir Gofal ym mis Tachwedd 2007 a pharatôdd Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd ei adroddiad ei hun ym mis Medi 2008.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Andy Phillips

Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng Ionawr 2014 a Gorffennaf 2014 (parhad)

Cynllunio'r gweithlu/leihau'r gweithlu

Yn sgil yr angen i wneud arbedion ariannol mae llawer o gyrff cyhoeddus wedi lleihau a/neu wedi ail-lunio eu gweithluoedd. Mae cwmphas y gwaith hwn wrthi'n cael ei ddatblygu ond rydym yn debygol o ystyried y cynnydd y mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud i leihau costau staff ac a yw'r newidiadau cysylltiedig yn cael eu gwneud mewn ffordd gynaliadwy, wedi'i chynllunio, yn unol ag egwyddorion arfer da. Drwy'r gwaith hwn bydd cyfleoedd i ddefnyddio'r methodolegau a ddefnyddiwyd ar gyfer gwaith tebyg a wnaed yn ddiweddar gan swyddfeydd archwilio eraill y DU a'u canfyddiadau.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Paul Dimblebee

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Matthew Mortlock

Menter Twyll Genedlaethol 2012-13

Bydd yr adroddiad hwn yn nodi canlyniadau ymarfer cyfredol Menter Twyll Genedlaethol 2012-13. Ers iddi ddechrau yn 1996, mae ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol wedi arwain at nodi mwy na £22 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru a £939 miliwn ledled y DU.

Ystyriodd y Pwyllgor fy adroddiad ar ymarfer 2010-11 ym mis Mai 2012. Yn unol â'r amserlen gyffredinol mewn blynyddoedd blaenorol ac er mwyn ei gydamseru â chyhoeddi adroddiad y Comisiwn Archwilio yn Lloegr, mae'n annhebygol y caiff ein hadroddiad ar ymarfer 2012-13 ei gyhoeddi tan fis Mehefin 2014. Mae'r cyfnod paratoi yn adlewyrchu'r ffaith, yn sgil darparu canlyniadau paru data ar ôl casglu data yn 2012-13, y bydd cyrff cyhoeddus unigol fel y bo'n briodol yn adolygu ac yn ymchwilio i'r data a barwyd cyn i ganlyniadau cyffredinol yr ymarfer gael eu coladu.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Anthony Barrett

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: I'w gadarnhau

Dyddiad cyhoeddi arfaethedig heb ei gadarnhau eto

Cronfa Buddsoddiad Cymru mewn Adfywio

'Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig' o dan berchenogaeth Iwyr Gweinidogion Cymru yw Cronfa Buddsoddiad Cymru mewn Adfywio (CBCA), ond mae'n gweithredu hyd braich. Mae'r gronfa yn werth £55 miliwn, gyda £25 miliwn o'r swm hwnnw yn arian Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop gan WEFO

Rydym yn ystyried nodau, trefniadau llywodraethu a gweithredu CBCA, gan gynnwys ei fusnes buddsoddi parhaus, a hefyd effeithiolrwydd trefniadau goruchwyllo Llywodraeth Cymru ar gyfer y gronfa. Un maes penodol y byddwn yn canolbwyntio arno yw'r ffordd y mae CBCA wedi gwaredu'r portffolio o dir ac eiddo a drosglwyddwyd iddo gan Lywodraeth Cymru ar y cychwyn.

Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru: Mike Usher

Rheolwr Prosiect Swyddfa Archwilio Cymru: Alastair McQuaid

Eitem 3

Public Accounts Committee

Meeting Venue: **Committee Room 3 – Senedd**

Meeting date: **Tuesday, 5 March 2013**

Meeting time: **Times Not Specified**

This meeting can be viewed on Senedd TV at:
[<insert link here>](#)

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Concise Minutes:

Assembly Members:

Darren Millar (Chair)
Mohammad Asghar
Mike Hedges
Julie Morgan
Gwyn Price
Jenny Rathbone
Aled Roberts
Jocelyn Davies

Witnesses:

Committee Staff:

Tom Jackson (Clerk)
Sarah Beasley (Clerk)
Daniel Collier (Deputy Clerk)
Joanest Jackson (Legal Advisor)

1. Introductions, apologies and substitutions

1.1 The Chair welcomed Members and members of the public.

2. Briefing from the Auditor General for Wales on the Wales Audit Office report The Procurement and Management of Consultancy Services

2.1 The Chair welcomed Huw Vaughan Thomas, Auditor General for Wales; Paul Dimblebee, Group Director; and Jeremy Morgan, Performance Specialist.

2.2 The Chair invited the Auditor General for Wales to brief the Committee on his report 'The procurement and Management of Consultancy Services'

3. Briefing from the Auditor General for Wales on the Wales Audit Office report Consultant Contract in Wales: Progress with Securing the Intended Benefits

3.1 The Chair welcomed Huw Vaughan Thomas, Auditor General for Wales; Dave Thomas, Group Director; and Malcolm Latham, Performance Audit.

3.2 The Chair invited the Auditor General for Wales to brief the Committee on his report 'Consultant Contract in Wales: Progress with Securing Intended Funds'.

4. Papers to note

4.1 The Committee noted the minutes of the meeting on 26 February 2013.

5. Motion under Standing Order 17.42 to resolve to exclude the public from the meeting for the following business:

6. Consideration of the handling of the Wales Audit Office report The Procurement and Management of Consultancy Services

6.1 The Committee discussed how it wished to handle the Wales Audit Office report 'The Procurement and Management of Consultancy Services' and agreed to conduct a short inquiry.

7. Consideration of the handling of the Wales Audit Office report Consultant Contract in Wales: Progress with Securing the Intended Benefits

7.1 The Committee discussed how it wished to handle the Wales Audit Office report 'Consultant Contract in Wales: Progress with Securing the Intended Benefits' and agreed to conduct a short inquiry.

8. Consideration of the handling of the Wales Audit Office report Caldicot and Wentlooge Level Internal Drainage Board

8.1 The Committee considered options for its inquiry into the findings of the Wales Audit Office report 'Caldicot and Wentlooge Levels Internal Drainage Board' and instructed the Clerk to prepare Terms of Reference for the inquiry.

9. Consideration of draft Committee report The Welsh Government's acquisition and action to dispose of the former River Lodge Hotel, Llangollen

9.1 The Committee considered its draft report 'The Welsh Government's acquisition and action to dispose of the former River Lodge Hotel, Llangollen' and agreed to consider final amendments to the draft report electronically.

9.2 The Committee would publish the report shortly.

TRANSCRIPT

View the [meeting transcript](#).

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon